| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD :** | **16 Rhagfyr 2010** |
| **TEITL :** | **Ail-benodi Aelodau i’r Pwyllgor Safonau** |
| **AWDUR :** | **Dilys Phillips, Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

1. Mae pum ‘aelod annibynnol’(h.y. aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol) ar Bwyllgor Safonau’r Cyngor. Mae’r pwyllgor hefyd yn cynnwys aelod yn cynrychioli’r cynghorau cymuned a thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

2. Bydd tymor aelodaeth dau o’r aelodau annibynnol - Mr Gwilym Ellis Evans a Mr Sam Soysa yn dod i ben 23 Chwefror 2011. Mae’r ddau wedi gwasanaethau ar y pwyllgor ers 2005.

3. Mae’r rheoliadau perthnasol yn caniatáu ail-benodi aelodau annibynnol am un cyfnod olynol, pellach o ddim mwy na phedair blynedd. Mae’r ddau aelod yn gymwys i’w hail-benodi, ac maent wedi mynegi eu parodrwydd i wasanaethu am gyfnod pellach. Byddai eu hail benodi yn golygu na fyddai’r Pwyllgor yn colli'r profiad a’r arbenigedd y mae’r ddau aelod wedi ei ennill dros y chwe blynedd diwethaf.

4. Pan fydd angen penodi aelod annibynnol newydd mae’n rhaid dilyn trefn statudol o hysbysebu a chyfweld, ond nid oes angen dilyn y broses honno wrth ail-benodi.

**Argymhelliad**

5. Ail benodi Mr Gwilym Ellis Evans a Mr Sam Soysa fel aelodau o’r Pwyllgor Safonau i wasanaethu am gyfnod o bedair blynedd o 24 Chwefror 2011.